**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD:** | **5 Medi 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda** |
| **TEITL:** | **Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar y Cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Rhoi adborth o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023** |

**Cefndir:**
Bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystyried yr adroddiad ar y Cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor, fel y gofynnwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar 10 Chwefror 2023 yn ystod trafodaethau ynghylch y Ffioedd a'r Costau ar gyfer 2023/24.

Rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:

- Y cefndir
- Proffil y tocynnau
- Yr ystyriaethau
- Yr effaith ariannol
- Yr hyn sydd i'w ystyried a'r opsiynau

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a oedd yn bresennol.

- Cyflwynodd yr Aelod Etholedig dros Lanbedr Pont Steffan gynnig i roi 2 awr o barcio am ddim ym meysydd parcio'r Cwmins a'r Rwceri yn Llanbedr Pont Steffan gan y byddai hyn, yn ei barn hi, yn cefnogi busnesau ac yn annog twristiaid i ymweld â'r dref. Fel rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, roedd yr Aelodau wedi cytuno ar flwyddyn arall o barcio am ddim ym meysydd parcio talu ac arddangos Tregaron a Llandysul.
- Cyfrannodd Aelodau eraill at y drafodaeth am y cynnig a gyflwynwyd a rhannodd yr Aelodau Etholedig dros Aberaeron ac Aberteifi eu barn â'r Pwyllgor ynglŷn â pharcio am ddim yn y meysydd parcio yn eu wardiau.

**Argymhellion:**
Yn dilyn cynnig gan Aelodau, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell:

i. Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth; ac
ii. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

**Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans**
***Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus***